



# **Cynllun Pwnc Troseddeg a Gwyddorau'r Heddlu**

**Chwefror 2018**

**CYMRÆG**



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

## Cyflwyniad a chyd-destun

### **Cyd – destun**

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae 'Tuag at 2020 a thu hwnt' yn gynllun strategol sy'n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith gynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu'r Coleg. <<http://bit.ly/2rtqlxT>>

Mae'r Cynllun Pwnc Troseddeg a Gwyddorau'r Heddlu yn gosod yr egwyddorion a'r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

### **Proses**

Cam cyntaf y broses o lunio'r cynllun hwn oedd i sefydliadau ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol oddi wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae'r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

### **Egwyddorion a Themâu**

Tra oedd y cynllun pwnc blaenorol yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd anrhydedd, bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn y sefydliadau yn ystod cyfnod cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar y nod o gynnig addysg uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyrwr yn greiddiol i'r egwyddor honno.

### **Strwythur y Cynllun**

Mae'r Cynllun Pwnc Troseddeg a Gwyddorau'r Heddlu yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Yma, ceir ystyriaeth lawnach o'r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n benodol i'r maes Troseddeg a Gwyddorau'r Heddlu.

*Troseddeg* – Darperir Troseddeg gan wahanol adrannau ac ysgolion academaidd ar draws prifysgolion Cymru, gan gynnwys y Gyfraith yn Aberystwyth, Cymdeithaseg â Pholisi Cymdeithasol ym Mangor, a Pholisi Cymdeithasol yng Nghaerdydd. Dysgwyd rhai modiwlau Troseddeg ym Mhrifysgol Bangor ers bron dau ddegawd tra bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd wedi datblygu ym Mhrifysgol Aberystwyth yn sgil creu darlithyddiaeth yn y maes yn ddiweddar.

*Gwyddorau'r Heddlu* – Darparwyd modiwlau cyfrwng Cymraeg a lleoliadau gwaith ym maes Gwyddorau'r Heddlu fel rhan o ddarpariaeth Cymdeithaseg â Pholisi Cymdeithasol a Throseddeg Prifysgol Bangor ers 2006, a datblygwyd darpariaeth newydd drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Morgannwg (De Cymru bellach) ers 2012. Mae datblygiad y pwnc, yn enwedig ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol De Cymru, yn enghraifft o faes lle y mae'r Gymraeg wedi ehangu ei pheuoedd o fewn addysg uwch ers sefydlu'r Coleg. Mae hefyd yn tanlinellu bod modd adeiladu

ar yr hyn sydd eisoes yn bodoli a datblygu arfer dda, yn ogystal â chreu darpariaeth newydd yn y Gymraeg sydd â gogwydd mwy galwedigaethol.

Noder bod y Coleg Plismona wedi cyhoeddi y bydd angen addysg hyd at lefel gradd ar bob plismon o 2020, naill ai trwy brentisiaeth gradd, cwrs gradd tair blynedd neu gwrs trosi ôl-radd. Gall newidiadau yn hyfforddiant yr heddlu fod o fudd mawr i niferoedd a darpariaeth Gymraeg ym maes Gwyddorau'r Heddlu. Bydd hefyd yn golygu newid ym mhroffil ac oedran myfyrwyr Gwyddorau'r Heddlu. Mae rheoliadau safonau iaith hefyd yn rhoi cyfle i ddatblygu'r maes yn y Gymraeg ond mae nifer o'r cynlluniau yn ddibynnol ar allu prifysgol i ennill yr hawl i gynnig cwrs gradd yn y maes gan y Coleg Plismona.

Mae modd astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn mewn gwahanol gyfuniadau o'r pynciau hyn ym Mhrifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol De Cymru.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori'r pwnc yn genedlaethol yn y Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau oddi wrth y Coleg Cymraeg (e.e. drwy'r Cynllun Staffio). Mae cyfuniad o ffactorau'n effeithio ar ddyraniad grant pynciol ac a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Yn 2017, mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwmo i gyrraedd meini prawf y Cynllun Academaidd yng Ngwyddorau'r Heddlu.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob flwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

Sefyllfa Gyfredol (2016/17)			
Sefydliad Addysg Uwch	Darpariaeth ar draws bl1-bl3	Staff	Myfyrwyr <sup>1</sup>
Prifysgol De Cymru	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg (Gwyddorau'r Heddlu).	1 aelod o staff llawn amser sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; 2 aelod o staff sy'n addysgu'n rhan-amser drwy gyfrwng y Gymraeg.	Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.  58 sy'n gallu siarad Cymraeg BI1–BI3.
<i>Prifysgol Bangor</i>	<i>O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg (Troseddeg).</i>  <i>40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg ym mlwyddyn 1 (Gwyddorau'r Heddlu) – modiwlau dewisol mewn sawl cynllun gradd.</i>	<i>1 aelod o staff sy'n addysgu yn y Gymraeg.</i>	<i>Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio Troseddeg drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>  <i>36 sy'n gallu siarad Cymraeg BI1–BI3.</i>  <i>Daw myfyrwyr o wahanol adrannau i astudio'r modiwlau Gwyddorau'r Heddlu a gynigir (cyfanswm 30 myfyriwr).</i>
Prifysgol Aberystwyth	O leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg	1 aelod o staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

<sup>1</sup> Gwybodaeth yn seiliedig ar y data HESA diweddaraf.

	(Troseddeg).		18 sy'n gallu siarad Cymraeg BI1–BI3.
--	--------------	--	---------------------------------------

## Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol

<b>Profiad Myfyrwyr</b>	<p><b>Troseddeg</b> – ym maes Troseddeg, bu'n bosib i fyfyrwyr y pwnc fanteisio ar ddigwyddiadau a drefnwyd gan y Panel Cyfraith, megis y Gynhadledd i fyfyrwyr a oedd yn cynnwys sawl thema yn ymwneud â Throseddeg.</p> <p>Bydd y Cynllun newydd yn edrych ar ddatblygu profiad galwedigaethol myfyrwyr Troseddeg ymhellach, gan edrych yn arbennig ar faes heddlua, gwasanaeth prawf a llunio polisi.</p> <p><b>Gwyddorau'r Heddlu</b> – Wrth ystyried gofyniad y Coleg Plismona i blismyn ennill cymwyster gradd wedi 2020, bwriedir datblygu a theilwra'r ddarpariaeth Gymraeg er mwyn ateb y galw gan heddluoedd ar draws Cymru. Yn ogystal â datblygu'r ddarpariaeth ar lefel israddedig, mae cynlluniau ar droed ym Mhrifysgol De Cymru i deilwra cyrsiau ôl-raddedig yn y Gymraeg er mwyn ateb y galw ar gyfer uwch-swyddogion yn yr heddlu. Hefyd, ceir bwriad i ddatblygu prentisiaeth rhwng yr Heddlu a Phrifysgol Bangor.</p> <p>Bydd y prifysgolion yn adeiladu ar eu perthynas â cholegau addysg bellach a chweched dosbarth fel bod myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus i astudio'r pwnc yn y Gymraeg ac yn gweld gwerth galwedigaethol i wneud hynny. Bydd y Cynllun newydd yn parhau gyda'r trywydd hwn.</p> <p>Bydd y cynllun yn datblygu'r cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli i gynnig profiad gwaith i fyfyrwyr ym meysydd heddlua a'r gwasanaeth prawf.</p> <p>*Mae darpariaeth Prifysgol De Cymru yn ddibynnol ar ennill tendr oddi wrth heddluoedd i ddarparu hyfforddiant / gradd o 2019 ymlaen.</p>
<b>Darlithwyr</b>	<p><b>Troseddeg</b> – penodwyd darlithydd cyfrwng Cymraeg gyda chefnogaeth Cynllun Staffio Academaidd y Coleg Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth.</p> <p>Mae'r darlithydd yn rhan o gyfadran sy'n cynnwys Y Gyfraith yn Aberystwyth a disgwylir felly y bydd llawer o gydweithio ar draws y gyfadran. Er mwyn darparu 40 credyd y flwyddyn, nod Prifysgol Aberystwyth yw</p>

	<p>sicrhau capasiti digonol ac o leiaf 2 ddarlithydd cyfrwng Cymraeg i gynnal y ddarpariaeth. Y nod tymor hir yw cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach a denu myfyrwyr newydd drwy fodiwlau sydd yn benodol i'r maes Troseddeg yng Nghymru.</p> <p>Mae'r Cynllun yn cydnabod mai un o heriau'r maes yw bod prinder arbenigwyr sydd â'r sgiliau iaith angenrheidiol. O ganlyniad, bydd angen datblygu darlithwyr sy'n hyddysg yn y maes ac yn hyderus yn eu gallu yn y Gymraeg. Awgrymir mai un ffordd o gyflawni hyn yw drwy ddatblygu cwrs ôl-radd mewn Troseddeg sydd yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg yn ogystal ag arbenigedd yn y pwnc.</p> <p><b>Gwyddorau'r Heddlu</b> – penodwyd darlithydd Gwyddorau'r Heddlu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol De Cymru yn sgil Cynllun Staffio Academaidd y Coleg. Mae'r buddsoddiad hwn wedi arwain at gynnydd yn nifer y myfyrwyr a'r ddarpariaeth Gymraeg, a nod y Brifysgol yw cyrraedd targed o 80 credyd y flwyddyn yn y Gymraeg o fewn y 5 mlynedd nesaf.</p> <p>Yn sgil y gofyniad newydd fod gan holl heddlu Cymru gymhwyster gradd yn y maes, disgwylir y bydd galw am arbenigedd darlithwyr yn y maes. Gwelir hyn yn faes twf posib i'r dyfodol. Hyd yma, bu recriwtio darlithwyr Gwyddorau'r Heddlu yn her.</p> <p>Er mwyn darparu 80 credyd y flwyddyn erbyn diwedd y Cynllun, bydd angen o leiaf 4 darlithydd i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol De Cymru yn y maes.</p> <p>Fel gyda Throseddeg, mae prinder pobl cymwys sydd â'r gallu neu'r hyder i ddarlithio yn y Gymraeg yn sefyllfa heriol. Bydd angen datblygu rhagor o unigolion sydd â sgiliau Cymraeg ac academaidd yn y maes.</p>
<p><b>Cwricwlwm</b></p>	<p><b>Troseddeg</b> - Ym maes Troseddeg, yn wyneb datblygiad pellach mewn gwahaniaethau rhwng cyfraith Cymru a chyfraith Lloegr ynghyd â newidiadau mewn polisïau cymdeithasol rhwng y ddwy wlad, mae'r angen am arbenigedd a chwricwlwm sy'n cydnabod hynny'n hollbwysig. Wrth ddatblygu cwricwlwm, bydd y Cynllun yn sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg i'r myfyrwyr hefyd yn amlygu sefyllfa unigryw Cymru.</p> <p>Bydd y cynllun yn edrych ar ffyrdd o gynnig modiwlau i weithwyr sydd eisoes yn y sector, gan gynnwys gweithwyr yn y sector heddlu, gwasanaeth prawf a pholisi cymdeithasol.</p>

Bydd y cynllun yn ystyried datblygu modiwlau craidd yn y Gymraeg y gellid eu rhannu ar draws y prifysgolion. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu cwricwlwm Cymraeg a Chymreig wrth ddatblygu modiwlau craidd a phrofiad galwedigaethol. Bwriedir cynnig cyrsiau ôl-radd rhan-amser a llawn amser er mwyn ymateb i'r galw.

Yn sgil newidiadau ym maes polisi Llywodraeth Cymru (hyd yn oed os na ddatganolir pwerau heddlua i Gymru), bydd angen arbenigedd Cymreig ar wneuthurwyr polisi Cymru. Bydd y Cynllun Pwnc yn sicrhau bod gan fyfyrwyr y pwnc gyfle i ddilyn cwrs ôl-radd neu ddoethuriaeth a all ateb yr anghenion hyn.

Bydd annog myfyrwyr hyderus eu Cymraeg i ddilyn cwrs ôl-radd yn hollbwysig i ddatblygu'r pwnc yn y dyfodol. Bydd y cynllun yn gweithio'n rhagweithiol er mwyn denu un myfyriwr bob tair blynedd i ddilyn PhD yn y Gymraeg mewn Troseddeg.

**Gwyddorau'r Heddlu** - Gwelwyd ehangu sylweddol yng nghwricwlwm Cymraeg y maes. Y cam nesaf fydd datblygu modiwl 20 credyd ar y radd Sylfaen yn y maes gan Brifysgol De Cymru, sef modiwl 'Perfformiad a Datblygiad', gan amcanu at 40 credyd maes o law.

Bydd hefyd angen buddsoddi er mwyn datblygu a darparu adnoddau Cymraeg yn y pwnc.

Mewn ymateb i'r twf a ragwelir yn nifer yr heddlu proffesiynol a fydd yn astudio modiwlau yn y pwnc, bydd angen bod yn agored ac ystwyth er mwyn ymateb i unrhyw her neu newid yn y cwricwlwm, ac er mwyn ateb galw gwahanol.

Bydd y cynllun newydd yn edrych ar ddatblygu modiwlau ar hyd themâu perfformiad a datblygiad.

Mae datblygu arbenigedd proffesiynol y rheini sy'n medru ymdrin â'r maes yn rhugl yn y Gymraeg yn flaenoriaeth i'r Cynllun Pwnc. Yn sgil hynny, bydd y prifysgolion yn gweithio'n rhagweithiol er mwyn cynnig cwrs neu ymchwil ôl-radd drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr israddedig a gweithwyr proffesiynol yn y maes sy'n barod i newid gyrfa.



	<p>Mae Prifysgol De Cymru yn awyddus iawn i wahodd graddedigion Gwyddorau'r Heddlu i addysgu a gweithio gyda myfyrwyr presennol yn y maes, gan gynnal gweithdai a goruchwylio traethodau hir. Bwriedir eu cyflogi fel darlithwyr fesul awr.</p>
<p><b>Canlyniadau Myfyrwyr</b></p>	<p><b>Gwyddorau'r Heddlu</b> - Mae 94% o raddedigion BSc (Anrh) Gwyddorau'r Heddlu mewn cyflogaeth neu astudiaeth bellach o fewn 6 mis ar ôl graddio.</p> <p>Mae 61% o raddedigion y cwrs sydd wedi astudio drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng 2013–2017 wedi derbyn gradd anrhydedd 2:1 neu uwch.</p>
<p><b>Adnoddau</b></p>	<p><b>Troseddeg</b> – mae adnoddau wedi eu cynhyrchu ar ffurf modiwlau yn y Gymraeg, ond mae angen adnoddau penodol i ategu a chefnogi'r dysgu ar gyfer y maes.</p> <p>Ymhlith rhai o'r adnoddau hyn, bydd deunydd i ddenu darpar fyfyrwyr ar ffurf Cyflwyniad i Droseddeg.</p> <p>Hefyd, bydd angen datblygu adnodd ar gyfer cefnogi cynllun Meistr neu Ddoethuriaeth.</p> <p>Gall yr adnoddau hyn fod ar ffurf amrywiaeth eang o adnoddau, gan gynnwys rhaglenni teledu a radio Cymraeg sy'n ymwneud â'r maes.</p> <p>Bydd unrhyw adnodd newydd yn cydweithio'n agos ag anghenion Colegau Addysg Bellach, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf.</p> <p><b>Gwyddorau'r Heddlu</b> – gyda chefnogaeth grant y CCC, cyfieithwyd adnoddau ar gyfer yr Ystafell Hydra lle y gall myfyrwyr ddysgu sut i ddefnyddio sgiliau penodol a datblygu eu dealltwriaeth o'r gyfraith mewn ystod o sefyllfaoedd plismona. Gyda datblygiad Ystafell Hydra 2 sydd wedi ei gosod ym Mhrifysgol De Cymru, bydd y Brifysgol yn blaenoriaethu creu cyfieithu adnoddau ar gyfer yr Ystafell Hydra i'r Gymraeg.</p>

	<p>Mae angen dirfawr i ddatblygu deunydd addysgu yn y Gymraeg i'r maes. Blaenoriaethir deunydd a all bontio addysg bellach, ysgolion a blwyddyn gyntaf gradd.</p> <p>Wrth ddatblygu adnoddau, bydd angen sicrhau eu bod hefyd yn apelio at fyfyrwyr hŷn sy'n dod at y pwnc wedi cyfnod o weithio yn y maes yn hytrach nag yn syth o goleg addysg bellach neu o'r ysgol, a'u bod yn ateb gofynion y myfyrwyr hynny.</p> <p>Gall yr adnoddau hyn fod ar ffurf amrywiaeth eang o adnoddau, gan gynnwys rhaglenni teledu a radio yn y Gymraeg sy'n ymwneud â'r maes.</p> <p>Bydd unrhyw adnoddau newydd yn gweithio tuag at ateb anghenion addysg uwch, ysgolion, colegau addysg bellach, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf.</p>
<p><b>Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)</b></p>	<p>Mae cyflogadwyedd yn un o flaenoriaethau holl gyrsiau gradd Troseddeg a Gwyddorau'r Heddlu. Mae ymgysylltu â chyflogwyr a'r byd busnes yn gyffredinol yn rhan annatod o'r cyrsiau gradd ac mae graddedigion yn y maes yn llwyddo i gael swyddi da ar ôl graddio.</p> <p>Mae Prifysgol De Cymru yn cynnig modiwl 'Arfer Proffesiynol a Chyflogadwyedd', sy'n orfodol i fyfyrwyr ar Lefel 5. Anogir myfyrwyr i ymgeisio fel cwnstabl arbennig gyda'r heddluoedd yn ystod eu cyfnod yn y Brifysgol yn ogystal.</p> <p>Wrth lunio neu ail-lunio cyrsiau, bydd darlithwyr yn cysylltu â sefydliadau'r maes, gan gynnwys Heddlu, Gwasanaethau Prawf, carchardai a llunwyr polisi. Bydd hyn hefyd yn arwain at sicrhau lleoliadau profiad gwaith i'r myfyrwyr.</p> <p>Bwriad Prifysgol Aberystwyth yw cynnig modiwl profiad gwaith ar gyfer myfyrwyr y drydedd flwyddyn wedi'i deilwra ar gyfer gweithio yn y maes yng Nghymru. Ystyrir y byddai modiwl o'r fath yn cynyddu gwerth sgiliau Cymraeg yn y gweithle yn ogystal â darparu profiad unigryw. Byddai modiwl o'r fath yn sicrhau dilyniant cyfrwng Cymraeg o'r byd addysg i'r man gwaith.</p> <p>Mae'n fwriad gan Brifysgol Bangor i werthuso ei chynllun lleoliad gwaith gyda'r Heddlu a'i effaith.</p>

	<p>Mae mesur cyflogadwyedd yn y sector hwn yn anodd, ond gwyddys fod 19,423 yn cael eu cyflogi yn yr Heddlu, y Gwasanaethau Tân a'r Lluoedd Arfog yng Nghymru a disgwylir 2083 o agoriadau swyddi erbyn 2024.<sup>2</sup></p>
<p><b>Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)</b></p>	<p>Mae Troseddeg a Gwyddorau'r Heddlu ill dau yn bynciau newydd i addysg Gymraeg. Bydd angen cefnogaeth i ddatblygu'r pynciau.</p> <p>Bydd y ddau bwnc, Troseddeg yn enwedig, yn elwa o gydweithio rhwng prifysgolion. Bydd y ddau bwnc hefyd yn datblygu ymhellach eu perthynas â cholegau addysg bellach ac ysgolion. Bydd angen gwneud hyn drwy ddulliau adnoddau a digwyddiadau.</p> <p>Ceir sawl her mewn perthynas â datblygiad pellach i'r maes. Rhoddir blaenoriaeth i feithrin cysylltiadau ac i feithrin cyrsiau llawn neu rannol drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn colegau addysg bellach.</p> <p>Mae angen sicrhau bod y myfyrwyr hynny sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn astudio'n helaeth drwy gyfrwng y Gymraeg (h.y. 40 credyd neu fwy). Mae angen sicrhau llwybr dilyniant clir i astudiaethau ôl-raddedig. Hefyd, mae angen sicrhau llwybrau dilyniant pwrpasol o astudiaethau lefel 3 a graddau sylfaen i raddau uwch yn y ddau bwnc.</p>

<sup>2</sup> <<https://www.careerswales.com/cy/career-search/search?jobTitleId=10196>>

<b>Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol</b>			
<b>Nod gweithredu</b>	<b>Targedau blwyddyn (2017/18)</b>	<b>Targedau 3 blynedd (2019/20)</b>	<b>Targedau 5 mlynedd (2021/22)</b>
<b>1. Cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd bob blwyddyn</b>	50 myfyriwr.	70 myfyriwr.	80 myfyriwr.
<b>2. Cynyddu'r nifer o fyfyrwyr PhDs ym maes Troseddeg a Gwyddorau'r Heddlu</b>		<b>Troseddeg</b> – o leiaf un myfyriwr PhD newydd bob tair blynedd.  <b>Gwyddorau'r Heddlu</b> – o leiaf un myfyriwr PhD newydd bob tair blynedd.	O leiaf un myfyriwr PhD bob blwyddyn rhwng y ddau bwnc.
<b>3. Darpariaeth Israddedig</b>	Cynnal o leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn ym maes Gwyddorau Heddlu mewn un lleoliad.  Cynnal o leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn ym maes Troseddeg mewn dau leoliad.	Cynnal o leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn ym maes Gwyddorau Heddlu mewn un lleoliad.  Cynnal o leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn ym maes Troseddeg mewn dau leoliad.	Cynnal o leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn ym maes Gwyddorau Heddlu mewn un lleoliad.  Cynnal o leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn ym maes Troseddeg mewn dau leoliad.
<b>4. Darpariaeth Lefel 3 / Graddau Sylfaen</b>	Datblygu perthynas ffurfiol â cholegau addysg bellach ac ysgolion yn y ddau bwnc.	Cydweithio â cholegau addysg bellach a CBAC er mwyn datblygu adnoddau i ddarpar-	Llenyddiaeth hyrwyddo i ddenu myfyrwyr i astudio Troseddeg a Gwyddorau'r Heddlu yn y Gymraeg.

		fyfyrwyr gradd, e.e cwrs mynediad.	Parhau'r berthynas rhwng y pynciau â Cholegau Addysg Bellach er mwyn datblygu adnoddau, ynghyd â chefnogi darpariaeth Gymraeg gan ddarlithwyr ac athrawon.
<b>5. Adnoddau</b>	<b>Gwyddorau'r Heddlu</b> – cyfieithu ac addasu rhagor o adnoddau'r Hydra Suite i'r Gymraeg.	<b>Troseddeg</b> – gweithio ar e-lyfr 'Cyflwyniad i Droseddeg'.  Cytuno ar dermau cenedlaethol i'r maes.  <b>Gwyddorau'r Heddlu</b> – gweithio ar e-lyfr 'Cyflwyniad i Heddlua'.  Cytuno ar dermau cenedlaethol i'r maes.	<b>Troseddeg</b> – e-lyfr 'Cyflwyniad i Droseddeg' wedi ei gyhoeddi.  <b>Gwyddorau'r Heddlu</b> – e-lyfr 'Cyflwyniad i Heddlua' wedi ei gyhoeddi.
<b>6. Datblygu Cwricwlwm Cymreig</b>	<b>Troseddeg</b> – cynnal gweithdy Troseddeg i fyfyrwyr chweched dosbarth a cholegau addysg bellach.  <b>Gwyddorau'r Heddlu</b> –	<b>Troseddeg</b> – sicrhau bod o leiaf 2 ddarlithydd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberystwyth.  Paratoi cwrs Meistr a themâu Doethuriaeth.	Myfyrwyr sydd wedi dilyn cyrsiau Meistr neu Ddoethuriaeth yn addysgu'r ddau bwnc.  Myfyrwyr Doethuriaeth yn gwneud gwaith ymchwil ar brosiectau i Lywodraeth Cymru

	<p>Trefnu bod siaradwr gwadd cyfrwng Cymraeg yn dod i Brifysgol De Cymru yn 2017-18.</p> <p>Datblygu llwybr i ddenu a hyfforddi arbenigwyr i ddarlithio ym maes Heddlua.</p> <p>Ystyried rhannu modiwlau a datblygu adnoddau a all bontio rhwng Troseddeg a Gwyddorau'r Heddlu.</p>	<p>Creu cysylltiad proffesiynol agos a rhagweithiol rhwng y cwrs ac awdurdodau'r Heddlu, Gwasanaethau Prawf a llunwyr polisi.</p> <p>Datblygu modiwl a all gael ei ddefnyddio gan brifysgolion eraill a phontio rhwng Troseddeg a Gwyddorau'r Heddlu.</p> <p><b>Gwyddorau'r Heddlu</b> - sicrhau bod o leiaf 3 darlithydd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol De Cymru.</p> <p>Creu llwybr clir i alluogi arbenigwyr i ddod yn ddarlithwyr yn y maes.</p> <p>Creu cysylltiad proffesiynol agos a rhagweithiol rhwng y cwrs ac awdurdodau'r Heddlu, Gwasanaethau Prawf a llunwyr polisi.</p> <p>Cynorthwyo gydag adnodd ar gyfer myfyrwyr ar brofiad gwaith ymarferol gyda'r heddlu neu wasanaeth prawf. Gall</p>	<p>neu awdurdodau ym maes Troseddeg neu Heddlua.</p> <p>Cyfleoedd galwedigaethol ar gael i bob myfyriwr yn y ddau bwnc yn ystod eu cwrs gradd.</p>
--	---	--	--

		hefyd fod yn addas i fyfyrwyr Troseddeg.	
--	--	---	--

**Datblygu'r maes: targedau sefydliadol**

<b>Sefydliad</b>	<b>Nod gweithredu</b>	<b>Targedau blwyddyn (2017/18)</b>	<b>Targedau 3 mlynedd (2019/20)</b>	<b>Targedau 5 mlynedd (2021/22)</b>
<b>Prifysgol Aberystwyth – Troseddeg</b>	Myfyrwyr	O leiaf 6 myfyriwr ym mhob blwyddyn.	O leiaf 8 myfyriwr ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn.
	Nifer Darlithwyr	1 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	2 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	2 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.  Datblygu darpariaeth ar lefel ôl-radd.
			Creu modiwl Profiad Gwaith yn y Gymraeg.  Creu modiwl Cyflwyniad i Droseddeg.	Cynyddu modiwlau cyfrwng Cymraeg yn yr ail a'r drydedd flwyddyn.



	Dilyniant	Cynnig gweithdai Troseddeg yn flynyddol.	Cynnig gweithdai Troseddeg yn flynyddol.	Cynnig gweithdai Troseddeg yn flynyddol.
	Ysgoloriaethau Ymchwil		O leiaf un PhD cyfrwng Cymraeg mewn Troseddeg.	O leiaf un PhD cyfrwng Cymraeg mewn Troseddeg.
<b>Prifysgol Bangor</b> – <b>Troseddeg</b>	<i>Myfyrwyr</i>	<i>O leiaf 6 ym mhob blwyddyn.</i>	<i>O leiaf 8 ym mhob blwyddyn.</i>	<i>O leiaf 10 ym mhob blwyddyn.</i>
	<i>Nifer Darlithwyr</i>	<i>1 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>	<i>1 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>	<i>2 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>
	<i>Darpariaeth</i>	<i>O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>	<i>O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>	<i>O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>
<b>Prifysgol De Cymru</b> – <b>Gwyddor Heddlu</b>	Myfyrwyr	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn.

	Nifer y Darlithwyr	2 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	3 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	4 aelod o staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 60 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Modiwlau		Datblygu modiwl ar y radd sylfaen – 'Perfformiad a Datblygiad'.	Dysgu'r modiwl ar y radd sylfaen – 'Perfformiad a Datblygiad'.

\*Mae cwrs Gwyddorau'r Heddlu ym Mhrifysgol De Cymru yn ddibynnol ar ennill tendr oddi wrth heddluoedd i ddarparu hyfforddiant / gradd o 2019 ymlaen, ac ail-ddilysiad ar gyfer 2019.